# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-04-07)

**Dyddiad: 4 Hydref 2007**
**Amser: 9.30 - 12:30**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau Cynulliad yn bresennol

Mick Bates (Cadeirydd), Sir Drefaldwyn
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Alun Ffred Jones, Arfon
Darren Millar, Gorllewin Clwyd
Karen Sinclair, De Clwyd
Brynle Williams, Gogledd Cymru
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Joanne Clinton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Roger Wade, Cynghorydd Gwastraff a PARCH, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Peter Wilkinson, Arbenigwr Technegol Gwastraff a PARCH, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Mike Batt, Rheolwr Cymru, Ymddiriedolaeth Garbon Cymru
Russell Davey, Uwch Gydgysylltydd Prosiect, Ymddiriedolaeth Garbon Cymru
Helen Northmore, Pennaeth Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Cymru
Peter Davies, Comisiynydd Cymru, Comisiwn Datblygu Cynaliadwy
Sarah Samuel, Arweinydd Tîm, Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, Comisiwn Datblygu Cynaliadw.

### Item 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

### Item 2: Ymchwiliad i leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru

**Papur: SC(3)-04-07 (p.1)**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Roger Wade a Peter Wilkinson i'r cyfarfod. Cafwyd cyflwyniad PowerPoint gan Roger Wade ac amlinelliad o bapur briffio Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru.

2.2 Cytunodd y tystion i roi copi o sleidiau'u cyflwyniad i'r Pwyllgor, ynghyd ag enghreifftiau o asesiadau o effeithiau carbon a ddefnyddir wrth fonitro a datblygu polisïau.

**Papur: SC(3)-04-07 (p.2)**

2.3 Croesawodd y Cadeirydd Mike Batt a Russell Davey i'r cyfarfod. Cafwyd amlinelliad o'r papur briffio gan Ymddiriedolaeth Garbon Cymru ar leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru gan Mike Batt.

### Eitem 3: Ymchwiliad i leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru

**Papur: SC(3)-04-07 (p.3)**

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Helen Northmore i'r cyfarfod. Cafwyd amlinelliad o'r papur briffio gan Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Cymru ar leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru gan y tystion.

3.2 Cytunodd y tystion i ddarparu ymateb ysgrifenedig mewn perthynas â chwestiynau ar gerbydau nwyddau trwm a'r Cynllun Gweithredu Rhwydwaith Ynni Cynaliadwy.

**Papur: SC(3)-04-07 (p.4)**

3.3 Croesawodd y Cadeirydd Peter Davies a Sarah Samuel i'r cyfarfod. Cafwyd amlinelliad o bapur briffio'r Comisiwn Datblygu

Cynaliadwy ar leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru gan Peter Davies.

3.4 Cytunodd y tystion i ddarparu ymateb ysgrifenedig mewn perthynas â chwestiwn ar ollyngiadau carbon o danau gwyllt, ynghyd â gwybodaeth am brawfesur carbon technolegau ynni amgen.

3.5 Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau i ystyried cynnal prawf ôl-troed carbon fel unigolion ac fel Pwyllgor.